Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Steve Merritt
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

1 Awst 2014

Annwyl Mr Merritt

**Ymweliad monitro gan Estyn, 30 Mehefin – 3 Gorffennaf 2014**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ym Mawrth 2012, nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod trwy gael ei fonitro gan Estyn. Cytunwyd ar gynllun ar gyfer ymweliadau dilynol gyda'ch arolygwyr cyswllt yn Estyn. Cynhaliwyd yr ymweliad dilynol cyntaf ar 9 – 11 Rhagfyr 2013, a chynhaliwyd yr ail ymweliad monitro o 31 Mawrth – 2 Ebrill 2014, a'r trydydd ymweliad, sef yr olaf, o 30 Mehefin – 3 Gorffennaf 2014. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi deilliannau'r ymweliad terfynol hwnnw.

Arweiniwyd tîm o bedwar arolygydd gan Gerard Kerslake AEM i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn dau o'r chwe argymhelliad sy'n weddill yn deillio o arolygiad Estyn ym Mawrth 2012, ac i gadarnhau bod cynnydd parhaus yn cael ei wneud yn erbyn y pedwar argymhelliad a ystyriwyd o'r blaen.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gyda'r aelod cabinet dros addysg, aelodau o'r pwyllgor craffu, swyddogion yr awdurdod, penaethiaid, llywodraethwyr ysgol ac uwch reolwyr o Gonsortiwm Canol De Cymru. Craffodd arolygwyr ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed o ran pob un o argymhellion Estyn. Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm eu canfyddiadau wrthych chi fel y prif weithredwr, wrth arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet dros addysg, y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes, a swyddogion eraill yr awdurdod.

Bernir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad yn Hydref 2012. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn credu nad oes angen i'r awdurdod gael ei fonitro gan Estyn mwyach ac mae'n ei dynnu o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Yn dilyn arolygiad Estyn ym Mawrth 2012, lluniodd yr awdurdod gynllun gweithredu ôl-arolygiad (CGOA) yn cynnwys manylion priodol gyda chamau cynyddol clir i sicrhau gwelliant yn ei wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi dangos ymrwymiad clir i wneud penderfyniadau anodd i wella darpariaeth a defnyddio adnoddau yn effeithiol. Mae arweinyddiaeth gref ac effeithiol y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi bod yn ffactor allweddol yn yr ymdrech hon i wella.

**Argymhelliad 1: Codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae safonau mewn ysgolion yn uwch nag oeddent adeg yr arolygiad diwethaf ar gyfer pob un o'r prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol. Pan gaiff perfformiad ysgolion yr awdurdod ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yng Nghymru, ar sail y ganran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yn gyffredinol ychydig uwchlaw'r cyfartaledd yn 2013 mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Fe wnaeth yr awdurdod fodloni neu ragori ar feincnodau disgwyliedig Llywodraeth Cymru ym mhob un o'r tri dangosydd yn 2013.

Bu gwelliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer pob un o'r prif ddangosyddion yn 2012 ac eto yn 2013. Roedd y gyfradd gwella yn 2013 yn well na chyfartaledd Cymru. Ar sail arwyddion diweddar o ysgolion, gan ystyried cymwysterau a enillwyd eisoes, mae'r awdurdod yn rhagweld gwelliant sylweddol yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg a Chymraeg a mathemateg o 46.3% yn 2013 i 51.6% yr haf hwn, er na fyddai hyn yn bell o darged yr awdurdod, sef 53.4%.

Mae gan yr awdurdod ddisgwyliadau uchel o'i ysgolion. Adlewyrchir hyn mewn uchelgais lleol sy'n nodi disgwyliadau o safonau erbyn 2018. Cefnogir hyn gan dargedau heriol i'r awdurdod ar gyfer 2014, 2015 a 2016, yn seiliedig ar dargedau ar gyfer pob ysgol. Cytunir ar dargedau ysgol yn dilyn her gadarn gan swyddogion, sy'n defnyddio data'n dda i gefnogi'r broses hon.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n effeithiol gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i sicrhau bod ei ysgolion ei hun yn cael digon o gymorth ac at y dibenion cywir a'i fod yn darparu adnoddau ychwanegol mewn ffordd ddefnyddiol, lle mae'n nodi achos cryf ar gyfer hyn. Mae'r rhan fwyaf o swyddogion yn adnabod ysgolion yn dda iawn, gan gynnwys ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, ac mae gan y cyfarwyddwr drosolwg rhagorol o'r holl ysgolion, ac yn benodol, ysgolion sy'n achosi pryder. Caiff ysgolion eu categoreiddio'n briodol trwy'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae swyddogion yn defnyddio categori ysgol i bennu lefel y cymorth sydd ar gael i'r ysgol ac yn gweithio'n hyblyg gydag ysgolion i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol gan ystyried cyd-destun yr ysgol.

Mae swyddogion o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a'r awdurdod yn dwyn ysgolion i gyfrif am eu perfformiad yn fwy effeithiol nag adeg yr arolygiad diwethaf. Mae swyddogion yn herio ysgolion yn gadarn ynglŷn â'u cynlluniau gwella, gan gynnwys 'datganiadau gweithredu' manwl ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder. Mae'r rhan fwyaf o swyddogion yn monitro perfformiad yn gadarn ar lefel sy'n gymesur â chategori'r ysgol, ac mae'r cyfarwyddwr a'r aelod cabinet yn ymgymryd yn uniongyrchol â monitro ysgolion sy'n achosi'r pryder mwyaf. Caiff ansawdd nodiadau ymweliadau a gynhelir gan swyddogion o'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, ynghyd ag adroddiadau ar ysgolion, ei sicrhau'n briodol gan yr awdurdod. Mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol uwchradd gyflwyno diweddariadau rheolaidd ar safonau a ragwelir ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 ar sail eu data diweddaraf. Yn ogystal â darparu barn barhaus am gynnydd, mae hyn wedi cynorthwyo penaethiaid hefyd i ddwyn arweinwyr canol i gyfrif a gwybod p'un a yw cymorth ac ymyriadau yn creu effaith.

Mae swyddogion gwella ysgolion yn cydweithio'n fwy â'r rhai mewn gwasanaethau sy'n cefnogi cynhwysiant cymdeithasol, lles ac anghenion dysgu ychwanegol, i sicrhau bod ystod ehangach o faterion yn cael eu hystyried wrth drafod perfformiad ysgol a'i darpariaeth.

Bu angen gweithgarwch dilynol ar lawer o ysgolion a arolygwyd ers arolygiad yr awdurdod. Barnwyd bod perfformiad presennol yn ddigonol mewn hanner o'r ysgolion hyn, ac yn anfoddhaol mewn un ysgol, ond barnwyd bod y rhagolygon gwella yn dda yn y mwyafrif ohonynt. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws cynyddol yr awdurdod ar sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn ei ysgolion.

**Argymhelliad 2: Gwella cyfraddau presenoldeb ym mhob ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad diwethaf yn 2012, mae presenoldeb wedi gwella mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd. Rhwng 2011 a 2013, fe wnaeth presenoldeb mewn ysgolion wella ar gyfradd uwch na chyfartaledd Cymru. Bu gwelliant o 1 pwynt canran ynddo o 92.4% yn 2011 i 93.4% yn 2013. O gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb yn 2013 yn debyg i'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd.

Fe wnaeth presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wella ar gyfradd debyg i gyfartaledd Cymru rhwng 2011 a 2013. Bu gwelliant o 1.3 pwynt canran mewn presenoldeb o 90.7% yn 2011 i 92.0% yn 2013. Fodd bynnag, mae presenoldeb gan ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r awdurdod lleol wedi gostwng lefel y disgyblion sy'n absennol yn barhaus o 10.2% yn 2011 i 6.9% yn 2013 (Cymru: 8.7% i 6.2%). O gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd islaw'r cyfartaledd, ac mae 37% (7) o ysgolion yn y chwarter isaf a 58% (11) islaw'r cyfartaledd. Mae 21% (4) yn unig o ysgolion yn y chwarter uchaf a 42% (8) uwchlaw'r cyfartaledd yn gyffredinol.

Mae data nas gwiriwyd yr awdurdod ar gyfer y flwyddyn bresennol hon yn dangos bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd wedi parhau i wella o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae'r awdurdod wedi cymryd camau cadarn i sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio codau presenoldeb yn gyson ac yn gywir. Mae'r awdurdod yn dwyn penaethiaid i gyfrif yn effeithiol trwy eu prosesau archwilio mewnol, sy'n arwain at ddata presenoldeb mwy cywir. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi rhoi cyfeiriad clir i ysgolion ynghylch awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor ac mae dull ysgolion o ymdrin â'r mater hwn yn anghyson. Mae'r awdurdod wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch cod ymddygiad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb penodedig am bresenoldeb gwael a dull 'dim goddefgarwch' ar gyfer awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor. Mae'n bwriadu cyhoeddi arweiniad i ysgolion yn y meysydd hyn ym Medi 2014.

Mae'r awdurdod wedi llunio strategaeth a phecyn canllawiau defnyddiol ar gyfer gwella presenoldeb, yn dilyn ymgynghori â phenaethiaid a rhanddeiliaid eraill. Mae penaethiaid yn gweld y pecyn canllawiau yn werthfawr ac yn effeithiol wrth amlinellu gweithdrefnau cyson i helpu gwella presenoldeb.

Mae ysgolion yr awdurdod wedi cyflwyno mentrau amrywiol i wella presenoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys systemau gwobrau a chosbau effeithiol, y mae ysgolion yn eu defnyddio'n gyson. Mae'r awdurdod wedi darparu hyfforddiant priodol i lywodraethwyr ar faterion presenoldeb. Maent wedi cysylltu'r hyfforddiant hwn â diogelu ac wedi cael adborth cadarnhaol gan lywodraethwyr. Mae llywodraethwyr wedi defnyddio'r hyfforddiant hwn yn dda mewn cyfarfodydd llywodraethwyr, er enghraifft trwy ddangos dealltwriaeth well a mwy o hyder wrth ddefnyddio data presenoldeb.

Mae'r awdurdod wedi cyflwyno ymgyrchoedd cyhoeddus addas i godi ymwybyddiaeth rhieni am bwysigrwydd presenoldeb da. Mae'r awdurdod wedi recriwtio partneriaid yn llwyddiannus i helpu i godi proffil presenoldeb uchel. Er enghraifft, mae busnesau lleol yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol trwy gynnig gwobrau am bresenoldeb da mewn ysgolion. Maent wedi llwyddo i sicrhau lle hysbysebu ar gerbydau fflyd y cyngor i hyrwyddo'r neges ynghylch presenoldeb da.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae data presenoldeb a ddarperir gan yr awdurdod i ysgolion a Chonsortiwm Canol De Cymru wedi gwella'n sylweddol. Gall ysgolion ddefnyddio'r data hwn yn dda trwy ymgynghori â'r gwasanaeth presenoldeb a lles i ganolbwyntio ar feysydd presenoldeb gwael.

Mae ysgolion, trwy ymgynghori â'r awdurdod a'r consortiwm, yn gosod targedau sy'n briodol heriol i wella presenoldeb. Mae'r rhain wedi'u seilio ar wneud yn siŵr bod pob ysgol yn anelu uwchlaw'r canolrif ar gyfer eu grŵp meincnod prydau ysgol am ddim. Os yw ysgol eisoes uwchlaw'r canolrif, yna gosodir targedau i'w symud yn ôl i fyny i'r chwarter nesaf yn eu grŵp meincnod prydau ysgol am ddim eu hunain.

Mae pwyllgor craffu ar addysgu a dysgu gydol oes yr awdurdod wedi sefydlu gweithgor craffu ar bresenoldeb i graffu ar bresenoldeb mewn ysgolion. Lluniwyd

adroddiad gan y grŵp hwn, a wnaeth 32 o argymhellion i helpu i wella presenoldeb. Aethpwyd i'r afael â phob un o'r argymhellion hyn yn briodol.

**Argymhelliad 3: Gwella arfarniadau a dadansoddiadau data ar draws meysydd gwasanaeth a phartneriaethau i ysgogi gwelliannau mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r awdurdod wedi rhoi strwythurau effeithiol ar waith i gefnogi gwelliannau parhaus mewn casglu a dadansoddi data ac adrodd. Mae hyn yn cynnwys strategaeth wella, bwrdd rheoli prosiect, a 'Thîm Gwybodaeth a Systemau' i gasglu, dadansoddi a rhannu data.

Ar ddechrau 2013, cynhaliodd yr awdurdod 'Adolygiad Llywodraethu Data a Gwybodaeth' trylwyr. Nododd deilliannau'r adolygiad hwn feysydd arfer dda a meysydd pwysig i'w gwella yn glir, a gadarnhaodd y canfyddiadau yn adroddiad Estyn, a rhoi manylion clir am y newidiadau sydd eu hangen. Mae'r awdurdod wedi ymateb yn dda i ganfyddiadau eu hadolygiad mewnol. Mae wedi defnyddio'i drefniadau archwilio mewnol hefyd i ddadansoddi ansawdd casglu data ar lefel ysgol, a dwyn ysgolion i gyfrif am gywirdeb y cofnodion a gedwir ganddynt. O ganlyniad, mae'r awdurdod wedi gwella cysondeb ei ddata ac wedi gwella ansawdd ei adroddiadau data.

Mae Ymweliadau Adolygu Data (YADau) yr awdurdod yn helpu swyddogion, arweinwyr systemau a rheolwyr ysgol i gael sgyrsiau mwy gwybodus am ddisgyblion a'u perfformiad. Mae defnydd cyrff llywodraethol o ddata yn gwella hefyd, ac mae ganddynt ddealltwriaeth well o sut i ddehongli data, a sut i'w ddefnyddio at ddibenion gwella.

Mae ysgolion yn magu hyder yn y systemau gwell ar gyfer casglu data. Maent yn defnyddio pecynnau data'r awdurdod a'u dadansoddiad eu hunain o ddata lleol fel ei gilydd i nodi'n fwy cadarn y materion yn ymwneud ag addysgu a dysgu, cynnydd disgyblion gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, a phresenoldeb disgyblion. Mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu data yn fwy effeithiol ac mae hyn yn arwain at gymorth wedi'i dargedu'n well i ddisgyblion wrth iddynt drosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

Mae cysylltiadau rhwng unedau data Consortiwm Canol De Cymru yn gwella. Mae'r awdurdod yn rhannu ei adroddiadau data ysgol gydag arweinwyr system er mwyn iddynt allu defnyddio'r rhain i lywio'u hadolygiadau perfformiad blynyddol. Mae'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdod cyfagos hefyd i ddatblygu systemau casglu data cyffredin, ac maent yn rhannu eu harfarniadau parhaus o hyn gyda'r consortiwm.

Erbyn hyn, mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i'w ysgolion wneud defnydd gwell a mwy priodol o'u data lefel disgybl i dargedu cymorth cyn cyfeirio disgyblion at wasanaethau'r awdurdod, a gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn benodol. Rhaid i ysgolion ddangos tystiolaeth o'r hyn y maent wedi'i wneud cyn i gyfeiriadau gael eu derbyn. Mae'r gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant wedi

gwella'r modd y mae'n defnyddio data i olrhain disgyblion ag ADY yn well, ac arfarnu'r defnydd o'r Gronfa Anghenion Ychwanegol (CAY). Er enghraifft, o ganlyniad i ddadansoddi data yn well, gall y gwasanaeth nodi tueddiadau'n well yn y modd y mae ysgolion yn rheoli ymddygiad a gall dargedu ei gymorth a'i her yn fwy priodol. O ganlyniad, mae'r angen am ymyrraeth gorfforol a'r defnydd o waharddiadau cyfnod penodol yn gostwng yn yr ysgolion hynny a gafodd eu targedu.

Mae'r awdurdod yn defnyddio data yn fwy effeithiol hefyd i wella gwasanaethau a deilliannau yn ei waith partneriaeth. Mae hyn wedi helpu'r bartneriaeth i ddatgomisiynu nifer fawr o wasanaethau, a monitro'n well effaith y gwasanaethau hynny y mae'n eu hariannu erbyn hyn. Mae'r awdurdod a'i bartneriaid wedi rhoi mecanwaith proffil gwendid ar waith, sy'n amlygu'n effeithiol y bobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i'w helpu i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae gan aelodau etholedig fwy o hyder yn ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan yr adran addysg. Mae hyn wedi helpu pwyllgorau craffu i ddwyn ysgolion a swyddogion i gyfrif yn fwy effeithiol.

**Argymhelliad 4: Defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad yn 2012, mae'r awdurdod wedi cryfhau ei ddefnydd o'r pwerau sydd ar gael ar gyfer gwella arweinyddiaeth a rheolaeth yn ei ysgolion. Mae wedi datblygu dull integredig i ategu ei strategaeth gwella ysgolion, sy'n cynnwys Cytundeb Partneriaeth diwygiedig a gwell, a pholisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol a rheoli perfformiad. O ganlyniad, mae cyfrifoldebau priodol ysgolion, yr awdurdod a Chonsortiwm Canol De Cymru ar gyfer gwella ysgolion yn gliriach, yn ogystal â'r canlyniadau ar gyfer perfformiad gwael.

Mae'r awdurdod, mewn partneriaeth â'r consortiwm rhanbarthol, yn cynnal adolygiadau perfformiad rheolaidd o'i ysgolion. Mae cyfarfodydd adolygu ysgolion yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth a'r data sydd gan y consortiwm i arfarnu pa mor dda y mae ysgol yn rheoli perfformiad a safonau disgyblion; ansawdd yr addysgu a'r dysgu; cyllid; adeiladau; diogelu disgyblion; a materion adnoddau dynol.

Mae'r awdurdod wedi cynyddu'r defnydd o'i bwerau ymyrraeth, ac wedi canolbwyntio hyn ar wella perfformiad, yn hytrach na dim ond gosod cosbau. Pan geir tanberfformio, mae'r awdurdod yn herio'i ysgolion i wella yn fwy trylwyr erbyn hyn. Mae'r awdurdod yn llywio'i her gyda sail dystiolaeth glir, sy'n arwain at gynllun cynyddol cytûn ar gyfer gwella a chymorth targedig priodol. Er enghraifft, gallai'r cymorth hwn gynnwys cymorth ariannol i sicrhau mentora a chymorth ar gyfer y pennaeth, rheolwyr y cwricwlwm ac athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu.

Mae defnyddio pwerau wedi cynnwys cyfarfodydd ffurfiol rhwng y cyfarwyddwr ac aelodau etholedig gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr. Mae'r awdurdod wedi cyhoeddi rhybuddion ffurfiol i benaethiaid a chyrff llywodraethol hefyd lle mae gwelliannau wedi bod yn rhy araf. Ers yr arolygiad yn 2012, mae'r awdurdod wedi defnyddio'i bwerau ymyrraeth i ddwyn 34 o ysgolion cynradd a 10 ysgol uwchradd i gyfrif yn fwy cadarn. Mewn un achos diweddar, mae'r awdurdod

wedi penodi llywodraethwyr ychwanegol ar gorff llywodraethol ysgol sy’n tanberfformio.

Yn dilyn hysbysiad gan yr awdurdod lleol i wella, mae’r rhan fwyaf o ysgolion wedi ymateb yn dda, ac maent wedi dangos gwelliant clir yn erbyn eu cynlluniau gweithredu cytûn.  Fodd bynnag, pan fu gwelliant cyfyngedig, mae’r awdurdod, y penaethiaid a’r cyrff llywodraethol wedi cynyddu ymyrraeth yn briodol yn unol â gweithdrefnau cymhwysedd a gallu.

**Argymhelliad 5:  Lleihau nifer y lleoedd dros ben**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae gan yr awdurdod ddull strategol addas o ad-drefnu ysgolion, sy’n cynnwys eu cynllun cyflwyno cynllunio a llywodraethu trefniadaeth ysgolion.  Mae gan y cynllun hwn gysylltiadau clir â’r cynllun busnes strategol, sy’n cynnwys amcan i gael gwared ar leoedd dros ben.

Mae’r awdurdod wedi ymgynghori’n effeithiol â rhanddeiliaid allweddol wrth lunio cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion.   Mae’r strategaeth wedi cael ei chroesawu gan ysgolion.  Mae’r awdurdod wedi cynorthwyo penaethiaid sy’n cymryd rhan yn y broses ad-drefnu ysgolion yn dda, gan eu cynnwys yn effeithiol yn y broses gynllunio a rhoi ystyriaeth dda i’w safbwyntiau.  Mae penaethiaid yn dangos ymrwymiad cryf i gynigion ad-drefnu yn y dyfodol.  Ers yr arolygiad yn 2012, mae aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau anodd ynghylch ad-drefnu ysgolion.  Maent yn dangos ymrwymiad i’r broses gyfan ar gyfer ad-drefnu ysgolion.  Ceir ewyllys wleidyddol amlwg ac ymrwymiad ariannol cryf i roi’r rhaglen ysgolion yn yr 21ain ganrif ar waith.

Mae gan yr awdurdod gynlluniau cadarn ar waith i gael gwared ar leoedd dros ben mewn ysgolion cynradd ac mewn ysgolion uwchradd.  Mae’r cynlluniau hyn yn cynnwys strategaeth gynhwysfawr i foderneiddio ysgolion sy’n cynnwys cau ysgolion, uno ysgolion a chreu ysgolion ar gyfer pob oedran.  Ers yr arolygiad yn 2012, mae’r awdurdod wedi lleihau nifer yr ysgolion cynradd sydd â nifer sylweddol o leoedd dros ben o 68 i 42 ac mae wedi lleihau cyfanswm nifer y lleoedd dros ben mewn ysgolion cynradd o 1,864.  Bydd tair ysgol fabanod arall yn cau yn Awst 2014, a fydd yn cael gwared ar 271 o leoedd eraill dros ben.  Bydd un ysgol gynradd yn cau yn Awst 2015, a fydd yn cael gwared ar 230 o leoedd eraill dros ben.

Mewn ysgolion uwchradd, mae nifer y lleoedd dros ben wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf.  Fodd bynnag, disgwylir y bydd tair ysgol uwchradd yn cau yn Awst 2014 a bydd adeilad ysgol newydd, y disgwylir y bydd yn agor yn Ebrill 2015, yn arwain at 932 yn llai o leoedd dros ben.

Mae’r awdurdod wedi rhagamcanu, ar sail niferoedd gwirioneddol disgyblion, y bydd y cynigion rhesymoli yn gostwng nifer y lleoedd dros ben i 21.5 % ar draws ysgolion uwchradd ac 16.7 % ar draws ysgolion cynradd erbyn Medi 2016.

**Argymhelliad 6: Gwella trylwyredd a lefel y craffu a'r her ar draws yr holl wasanaethau a phartneriaethau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad yn 2012, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd cyson wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn ac mae'n ymateb yn briodol i'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu. Mae'n rhoi ystyriaeth dda hefyd i'r negeseuon ynghylch gwella sy'n deillio o'r fenter bresennol ledled Cymru i wella'r modd y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â swyddogaethau craffu.

Mae'r awdurdod wedi adolygu'r ffordd y mae ei bwyllgor craffu'n gweithio ac mae'n gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol ac awdurdodau lleol eraill i ddatblygu ei raglen wella. O ganlyniad, mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth well o'r heriau y mae'n eu hwynebu i wella'i swyddogaeth craffu ac mae eisoes wedi rhoi camau priodol yn eu lle i fynd i'r afael â llawer o'r materion sylfaenol.

Mae swyddogion cymorth craffu wedi diwygio'r hyfforddiant a gynigir i aelodau craffu. Maent yn gweithio'n dda gyda chadeiryddion craffu i wella medrau rheoli pwyllgor. Maent yn gweithio ar wella eglurder cofnodion hefyd, fel eu bod yn cofnodi unrhyw ddeilliannau sy'n deillio o gyfarfodydd craffu yn well ac yn defnyddio'r rhain yn fwy effeithiol i lywio penderfyniadau ac argymhellion ar gyfer gweithredu. Mae cyfarfodydd wedi'u rhaglennu ymlaen llaw wedi dechrau gwella'r ffordd y mae aelodau'n paratoi ar gyfer cyfarfodydd, sy'n eu galluogi i wella'r ffordd y maent yn herio a holi ynghylch adroddiadau. Mae gan yr awdurdod broses effeithiol ar waith erbyn hyn i sicrhau yr eir i'r afael â'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor craffu ar addysg a dysgu gydol oes.

Mae dealltwriaeth aelodau craffu o'r agweddau technegol ar ddata addysg a mesurau perfformiad yn gwella. Mae aelodau'r pwyllgor wedi cael hyfforddiant penodol ar hyn. Hefyd, mae'r pwyllgor craffu ar addysg a dysgu gydol oes, mewn partneriaeth â'r pwyllgor craffu ar wasanaethau plant, wedi sefydlu gweithgor ar y cyd yn ddiweddar i wneud gwaith ymchwil manylach i faterion addysg penodol er mwyn datblygu arbenigedd o fewn y pwyllgorau craffu.

Mae ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan swyddogion mewn adroddiadau wedi gwella. Mae adroddiadau'n cynnwys mwy o ffocws yn gynyddol, ac maent yn cynnwys sail dystiolaeth fwy cadarn. Pan fo'n briodol, mae adroddiadau craffu yn cynnwys gwybodaeth fanwl am berfformiad ysgolion unigol erbyn hyn ac nid am berfformiad lefel uchel ar draws yr awdurdod yn unig. Mae'r gwelliannau hyn yn helpu aelodau craffu i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol.

Mae craffu ar ddeilliannau addysgol sy'n deillio o waith y Fframwaith[1] yn gwella hefyd. Roedd sicrhau lefel briodol wrth graffu ar y gwaith hwn gan aelodau etholedig yn gwneud cynnydd araf i ddechrau. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor addysg a dysgu

---

[1] Fframwaith yw Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Rhondda Cynon Taf, a sefydlwyd i hyrwyddo cydweithredu lleol ymhlith asiantaethau i wella lles plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau gwahanol amrywiol sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Sector Iechyd, y Sector Gwirfoddol a'r Sector Statudol, ac mae pob un ohonynt yn darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

gydol oes wedi cymryd y camau priodol i wella trylwyredd y ffordd y mae'n craffu ar y gwaith hwn yn ddiweddar.

Mae Fframwaith yn datblygu'r systemau angenrheidiol i fynd i'r afael â'i rôl bwysig mewn cydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid yn yr awdurdod. Mae ganddo fodel datblygedig yn ei le i reoli perfformiad ei wasanaethau a gomisiynwyd yn briodol. Mae wedi datgomisiynu prosiectau nad ydynt wedi gallu nodi'n glir yr angen am eu gwaith na deilliannau eu hymyriadau hefyd. Hyd yn hyn, nid yw Fframwaith wedi cyflwyno'r model hwn ar draws gwasanaethau cymorth ieuenctid nad ydynt wedi'u comisiynu. Fodd bynnag, mae'r strategaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid ddiweddar yn darparu'r sylfaen y maent yn bwriadu datblygu'r agwedd hon arni.

Mae swyddogion yn adrodd yn rheolaidd am ddeilliannau addysg wrth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) a'r Bwrdd Cydweithredu Rhanbarthol.

**Y camau nesaf**

Dylai'r awdurdod barhau i weithio i godi safonau ar draws yr holl gyfnodau allweddol, a gwella presenoldeb. Dylai barhau â'i waith i wella'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau craffu hefyd, a datblygu Fframwaith ymhellach fel ei fod yn cyflawni ei rôl yn effeithiol. Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru